



## craffu ar rai o arholiadau **TGAU**'r haf eleni yng Nghymru

**Dros yr haf eleni, safodd myfyrwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru arholiadau cymeradwy TGAU Cymru, sy'n cael eu graddio o A\* – G. Mewn rhai ysgolion annibynnol yng Nghymru, mae'n bosib y byddai rhai myfyrwyr wedi sefyll TGAU Lloegr sy'n cael eu graddio o 9 – 1. Mae'r ffigurau a drafodir isod yn ymwneud â'r ceisiadau ar gyfer cymwysterau cymeradwy Cymru yn unig.**

### **Pwy sy'n sefyll TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd haf eleni?**

Cynyddodd y cyfanswm ceisiadau ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd dros yr haf eleni gan 5,005 ymgeisydd i 34,570 a 1,695 ymgeisydd i 24,695 yn eu tro, o'u cymharu â haf 2018. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'n bennaf y cynnydd mewn niferoedd myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau hyn ar ddiwedd Blwyddyn 11, yn hytrach nag ymgeisio'n gynt.

Mae ymgeiswyr Blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Mathemateg i fyny gan 4,200 i 27,395 o'i gymharu â 2018. Yn achos TGAU Mathemateg-Rhifedd, cynyddodd ymgeiswyr Blwyddyn 11 gan 1,725 i 21,285.

### **Beth yw oblygiadau hyn ar gyfer canlyniadau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd yn yr haf eleni?**

Mae'r patrymau ymgeisio gwahanol hyn yn debygol o effeithio ar ganlyniadau cyffredinol terfynol mathemateg yng Nghymru, ac felly mae angen bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau ystyrlon flwyddyn ar flwyddyn.

Mae hi'n werth cofio y bydd rhai myfyrwyr wedi cael eu graddau yn haf 2018, neu fis Tachwedd 2018, ac na fyddan nhw'n sefyll arholiadau mathemateg haf eleni. Mae'r newidiadau hyn yn y cohort yn golygu y bydd angen bod yn ofalus iawn wrth ddehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf.

Bydd ein cymariaethau ni yn cael eu seilio ar y canlyniadau gorau a gafwyd gan fyfyrwyr sy'n gorffen Blwyddyn 11 haf eleni. Ystyr hyn yw os cafodd myfyriwr radd well ynghynt yn y cwrs, neu ei fod wedi sefyll mewn cyfres gynharach, a heb ddychwelyd haf eleni, dyna'r radd y byddwn ni'n ei defnyddio ar gyfer ei chymharu â chanlyniadau Blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol. Bydd hyn yn sicrhau fod y gymhariaeth mor deg ac mor ddilys â phosib.

*parhad...*



## Pwy sy'n sefyll TGAU Iaith Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg haf eleni?

Ceir newid nodedig ym mhatrwm ymgeisio haf eleni ar gyfer y ddau gymhwyster hyn o'u cymharu â haf 2018. Cynyddodd niferoedd yr holl ymgeiswyr ar gyfer y ddau gan 8,800 i 36,270 ar gyfer TGAU Iaith Saesneg, ac maent wedi codi 5,220 i 29,055 yn achos TGAU Llenyddiaeth Saesneg. Achos y cynnydd hwn yw bod ymgeiswyr o Flwyddyn 11 i'w cael yn achos TGAU Iaith Saesneg ac ymgeiswyr o Flwyddyn 10 yn TGAU Llenyddiaeth Saesneg. Mae'n debygol fod y newidiadau hyn wedi digwydd mewn ymateb i newidiadau mewn mesuryddion perfformiad ysgolion.

### TGAU Iaith Saesneg

Yn nyfarniad haf cyntaf TGAU Iaith Saesneg yn 2017, cyfanswm yr ymgeiswyr oedd 55,385 oherwydd bod nifer fawr wedi ymgeisio o Flwyddyn 10. Ni fu i lawer o'r myfyrwyr Blwyddyn 10 hynny a safodd yr arholiad yn 2017 sefyll eilwaith yn haf 2018.

Yn haf 2018, cafwyd cwmp sylweddol yn niferoedd y myfyrwyr oedd yn sefyll y cymhwyster ym Mlwyddyn 10, a arweiniodd at gyfanswm llawer llai o ymgeiswyr, sef 27,475.

Cyfanswm yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU Iaith Saesneg yn haf 2019 yw 36,270, cynnydd o 8,800 (32.0%). Lleihaodd nifer yr ymgeiswyr o Flwyddyn 10, ac mae ymgeiswyr Blwyddyn 11 yn cynrychioli mwyafrif o gohort cenedlaethol Blwyddyn 11.


### TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Cyfanswm yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn yr haf eleni yw 29,055 sef cynnydd o 21.9% o'i gymharu â haf 2018. Gwelodd pob grŵp blwyddyn, heblaw am Flwyddyn 13 neu uwch, gynnydd mewn ymgeiswyr yn haf 2019, o'i gymharu â haf 2018. Roedd y cynnydd mwyaf o ran ymgeiswyr i'w gweld ym Mlwyddyn 10, i fyny gan 4,165 i 9,355. Mae'n debygol fod modd priodoli'r amrywiadau hyn i newidiadau mewn mesuryddion perfformiad ysgolion.

## Beth yw oblygiadau hyn ar gyfer canlyniadau TGAU Iaith Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn yr haf eleni?

Mae'r newidiadau hyn i batrymau ymgeisio'n debygol o effeithio ar ganlyniadau terfynol cyffredinol TGAU Iaith Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn yr haf eleni.

Er mwyn esbonio sut y mae canlyniadau TGAU Iaith Saesneg yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, bydd ein trosolwg o ganlyniadau'r haf yn canolbwyntio ar blant 16 oed, sef myfyrwyr Blwyddyn 11. Oherwydd yr holl newidiadau hyn, bydd hi'n anodd cymharu'n ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn, ac mae ysgolion yn debygol o weld mwy o amrywiaeth yn eu canlyniadau o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.



Yn achos TGAU Llenyddiaeth Saesneg, bydd llawer o fyfyrwyr wedi ennill eu graddau yn ystod haf 2018, ac ni fyddant wedi ymgeisio haf eleni. Mae natur y cohort wedi newid, a all olygu y gallai canlyniadau'r haf eleni fod yn wahanol o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Unwaith eto, bydd angen bod yn ofalus iawn wrth ddehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf.

Bydd unrhyw gymariaethau a wneir gennym yn seiliedig ar y canlyniadau gorau a gafodd myfyrwyr sy'n gorffen Blwyddyn 11 eleni. Ystyr hyn yw os llwyddodd myfyriwr i gael gradd uwch ynghynt yn y cwrs, dyna'r radd y byddwn ni'n ei defnyddio er mwyn cymharu â chanlyniadau Blwyddyn 11 o flynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn sicrhau fod y gymhariaeth mor deg ac mor ddilys â phosib.

## **Pwy sy'n sefyll TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg haf eleni?**

Cafwyd 5,220 o ymgeiswyr ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith haf eleni, cynnydd o 355 o'i gymharu â haf 2018. Cynyddodd ymgeiswyr ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg o Flwyddyn 11 hefyd gan 365 i 3,695 yn haf 2019.

## **Beth yw oblygiadau hyn ar gyfer canlyniadau TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg haf eleni?**

Er i ni weld cynnydd bychan yn nifer ymgeiswyr TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg fel ei gilydd, bach iawn o newid a welwyd mewn patrymau ymgeisio ar gyfer y cymwysterau hyn, a disgwylir gweld canlyniadau tebyg haf eleni o'u cymharu â haf 2018.

## **Pwy sy'n sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith haf eleni?**


Dyfernir y cymhwyster cymeradwy TGAU Cymraeg Ail Iaith am y tro cyntaf dros yr haf eleni, ac mae'n dod yn lle'r cymwysterau blaenorol cwrs llawn a chwrs byr TGAU a TGAU Cymhwysol.

Yn haf 2018, cafwyd 5,645 o ymgeiswyr ar gyfer y cwrs TGAU byr, sef 26.8% o gyfanswm yr ymgeiswyr haf ar gyfer TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith – gan gynnwys y cwrs byr, y cwrs llawn a'r cwrs cymhwysol.

Dim ond i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion y mae'r cymhwyster TGAU newydd hwn ar gael.

Dim ond i'r cwrs TGAU newydd, llawn y gellir cyflwyno myfyrwyr, gan gynnwys rhai a fyddai wedi ymgeisio am gymwysterau cwrs byr neu gymhwysol yn y gorffennol. O ganlyniad, ceir newid sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer y TGAU llawn haf eleni o'i gymharu â 2018.

Haf eleni, mae cyfanswm o 19,670 o ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith o'u cymharu â 12,115 a safodd yr hen gwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith llawn yn haf 2018.



## Beth sy'n wahanol rhwng yr hen gymwysterau a'r rhai newydd?

Mae gan y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd, a safwyd am y tro cyntaf haf eleni, gynllun a ffocws gwahanol o'i gymharu â'r hen gymhwyster.

Mae gan y cymhwyster newydd ddwy uned llafaredd o'i gymharu ag un uned a oedd yn werth 25% yn yr hen gymhwyster. Mae'r unedau newydd hyn yn canolbwyntio'n llawer mwy ar sgiliau siarad a gwrando myfyrwyr nag a welid yn yr hen uned ar lafaredd, gan gynnwys eu gallu i ymateb yn ddigymell i sgwrs.

Yn ogystal, ni cheir asesiad a reolir (gwaith cwrs) yn y cymhwyster newydd, ble roedd uned asesiad a reolir oedd yn werth 25% yn yr hen gymhwyster.

## Beth yw oblygiadau hyn ar gyfer canlyniadau TGAU Cymraeg Ail Iaith haf eleni?


O ystyried y newidiadau ym maint a chynnwys y cohort sy'n ymgeisio am y cymhwyster, ynghyd â'r newidiadau i'r asesiadau oddi mewn i'r TGAU newydd, ein disgwyliad yw gweld newid yn y canlyniadau cyffredinol eleni o'u cymharu â haf 2018. Fe all canolfannau ddisgwyl gweld mwy o amrywiaeth yn eu canlyniadau yr haf hwn o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Nodyn:** Gellir canfod data ymgeisio dros dro ar gyfer arholiadau eleni [yma](#).



**More information:** [www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org) E: [enquiries@qualificationswales.org](mailto:enquiries@qualificationswales.org)

T: 01633 373 222

 [@quals\\_wales](https://twitter.com/quals_wales)